# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 1. Croeso

Croeso i lwybr sain Trwyn y Fuwch. Fy enw i ydi Sioned Edwards, byddaf yn eich tywys chi drwy'r dirwedd gyfareddol yma. Bydd cyfle i ddarganfod hanes cyfoethog a bywyd gwyllt unigryw Trwyn y Fuwch (Creigiau Rhiwledyn). Mae'r llwybr sain yn cael ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae Trwyn y Fuwch yn bentir arfordirol nodedig gyda chlogwyni dramatig, glaswelltiroedd calchfaen llawn rhywogaethau, a golygfeydd panoramig trawiadol. Fe ffurfiwyd y clogwyni gwyn agored sydd o'ch blaen chi fwy na 320 miliwn o flynyddoedd yn ôl ac maen nhw wedi'u gwneud o gwrel a chreaduriaid morol eraill a oedd yn ffynnu mewn moroedd bas, trofannol i'r de o'r cyhydedd. Dros amser, fe gronnodd haenau o'u gweddillion nhw ar wely'r môr, gan ffosileiddio yn y calchfaen llawn calsiwm.

Dyma hafan i fywyd gwyllt; mae planhigion prin, pryfed ac adar yn ffynnu yn y cynefin nodedig. Mae wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn gartref i'r cor-rosyn lledlwyd sy'n brin yn genedlaethol a glöyn byw y glesyn serennog. Mae'r clogwyni arfordirol isel yma'n gartref i un o'r poblogaethau magu mwyaf o'r Fulfran yn y Deyrnas Unedig.

Cyn i ni ddechrau, dyma ychydig o awgrymiadau cyflym: rydyn ni'n eich cynghori chi i wisgo esgidiau priodol, oherwydd mae'r tir yn gallu bod yn serth, yn anwastad ac yn llithrig pan mae'n wlyb. Byddwch yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chlogwyni, gan gynnwys creigiau'n syrthio ac ymyl dibyn sydyn ac annisgwyl. Mae croeso i chi roi saib ar y sain ar unrhyw adeg i weld y golygfeydd, felly beth am i ni ddechrau arni ...

*Mae cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi ar ddiwedd pob trac i'ch arwain chi at y cod QR nesaf lle gallwch chi wrando ar ran nesaf ein llwybr sain. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud ydi sganio gyda chamera eich ffôn clyfar.*

*Gan wynebu'r arwydd croeso, trowch i'r dde a dilyn y llwybr carreg i fyny'r bryn. Cyn bo hir byddwch yn cyrraedd y trydydd cyfeirbwynt ar gyfer Llwybr Arfordir Gogledd Cymru a Chymru, gyda mainc bren ar y dde i chi – llecyn da i orffwys i wrando ar y clip sain nesaf.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 2. Y glaswelltiroedd calchfaen byw

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi ymrwymo i warchod glaswelltiroedd calchfaen Gwarchodfa Natur Rhiwledyn - mae'n un o'r cynefinoedd prinnaf a mwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau sydd gennym ni yng Nghymru.

Gyda'r dyddiau hirach yn ystod y gwanwyn a'r haf, maen nhw'n datblygu i fod yn wenfflam o liw. Mae gwyndwn toreithiog o flodau gwyllt yn ffynnu ar y pridd sy'n brin o faethynnau; o lelog y clafrllys bach i felyn euraidd y cor-rosyn cyffredin a'r blucen felen, gan greu golygfa fywiog ar draws y dirwedd. Efallai y byddwch chi hefyd yn gweld tegeirianau'r wenynen a thegeirianau bera, ac yn clywed arogl hyfryd y teim gwyllt, sy'n ffurfio matiau sy'n tyfu'n isel, gyda chlystyrau trwchus o bennau blodau porffor i binc, a blodau gwyn hufennog y grogedau.

Mae'r tapestri yma o blanhigion blodeuo amrywiol yn darparu bwyd ar gyfer amrywiaeth rhyfeddol o bryfed a glöynnod byw, gan gynnwys y gweirlöyn cleisiog, yr argws brown a'r glesyn serennog prin, sy'n chwilio am ffynhonnell gyfoethog o neithdar yn yr heulwen gynnes.

Mae'r dirwedd welwch chi heddiw'n dyst i ymroddiad ac ymdrechion ein tîm ni yn y warchodfa a'r gwirfoddolwyr, yn gwarchod ein treftadaeth naturiol ni. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i adfer a chynnal y 5 hectar yn Rhiwledyn. Mae dulliau pori traddodiadol dros y gaeaf yn cadw lefelau'r nitrogen yn y pridd yn isel ac yn lleihau cystadleuaeth gan laswelltau talach yn yr haf. Mae prysgwydd gwasgaredig o eithin, drain duon, a celyn a meryw yn cael eu tocio a'u torri mewn cylchdro i warchod amrywiaeth o strwythurau oedran, gan ddarparu bwyd a lloches bwysig i adar sy'n nythu.

Fodd bynnag, mae'r olygfa fywiog yma dan fygythiad gan rywogaethau estron ymledol, yn enwedig creigafal, sy'n cael ei fonitro a'i dynnu. Os na fydd yn cael ei reoli bydd yn gallu tagu a chael y gorau ar y blodau gwyllt arbenigol sydd yn y glaswelltiroedd calchfaen, gan gael effeithiau dinistriol ar fioamrywiaeth.

Fe gyflwynwyd creigafal i'r Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif fel planhigyn gardd addurnol, ac ers hynny mae wedi dianc i rai o'n tirweddau gwerthfawr ni. A dweud y gwir, mae creigafal wedi'i nodi fel un o'r 10 prif rywogaeth sy'n niweidio safleoedd gwarchodedig ar draws Gogledd Cymru.

*Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr i fyny'r allt drwy'r clwstwr o goed nes i chi gyrraedd giât mochyn bren a ffin y warchodfa, sef eich stop sain nesaf.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 3. Hanes cudd

Mae tirwedd garw Trwyn y Fuwch nid yn unig yn rhyfeddod daearegol ond hefyd mae ganddi hanes cyfoethog a grymus o fewn ei holltau a'i hogofâu cymhleth a chudd.

Datgelodd gwaith cloddio yn anterth y chwarela yn 1880 dystiolaeth gynhanesyddol a oedd yn awgrymu bod pobl yn byw ar y pentir yma ar un adeg. Fe gafodd sgerbwd benywaidd sy'n cael ei adnabod bellach fel 'Blodwen' ei ddarganfod yma. Fe gadarnhaodd dyddio carbon bod Blodwen wedi marw tua phum mil a hanner o flynyddoedd yn ôl yn ystod y cyfnod Neolithig. Yn nyfnderoedd un ogof, fe ddaeth archaeolegwyr o hyd i esgyrn o leiaf pedwar o bobl eraill, yng nghwmni esgyrn ych ac arteffactau o'r Oes Efydd gynnar, gan gynnwys gleiniau ambr a chelfi llechi.

Gyda threigl amser a dyfodiad Oes Elizabeth, yng nghanol erledigaeth y Catholigion ym Mhrydain, trawsnewidiwyd ogof debyg yn wasg argraffu gudd o'r enw 'Yr Ogof Simnai'. Yn 1587, defnyddiodd Sgweier Robert Pugh, perchennog tir lleol, gyda chefnogaeth cefnogwyr Catholig ffyddlon, yr ogof yma i argraffu llyfr o'r enw 'Y Drych Cristianogawl', y cyntaf o'i fath i gael ei gyhoeddi yng Nghymru. Roedd gweithred o'r fath yn cael ei hystyried yn frad a'r gosb oedd marwolaeth. Gerllaw, roedd gan gartref Sgweier Pugh, Penrhyn Old Hall yw ei enw bellach, "dwll offeiriaid" cudd tu ôl i'r simnai lle gallai clerigwyr Catholig guddio.

Cafodd y wasg ei darganfod yn ddiweddarach y flwyddyn honno pan ddaliodd mwg o'r ogof sylw cwch pysgota oedd yn mynd heibio. Mae'r adroddiadau'n awgrymu bod Syr Thomas Mostyn, yr Ynad Heddwch lleol, wedi anfon catrawd o 40 o ddynion y milisia i ymchwilio, ond roedd yn rhy anodd mynd i mewn drwy'r fynedfa. Fe fuon nhw yno'n cadw golwg ar y safle dros nos, dim ond i ddarganfod bod y drwgweithredwyr wedi dianc drwy simnai naturiol erbyn y bore.

Yn 1962, datgelodd gwaith cloddio yn yr ogof dystiolaeth ryfeddol i gefnogi'r stori yma; mae marciau nodweddiadol a ddarganfuwyd ar lawr yr ogof yn awgrymu bod distiau wedi'u gosod y tu mewn ar un adeg. Wrth gerdded yng nghanol y creigiau hynafol yma, dychmygwch y gweithrediadau cyfrinachol oedd yn adleisio yma ar un adeg, a'r sgyrsiau oedd yn cael eu sibrwd.

*Ewch yn eich blaen drwy'r giât mochyn ar hyd Llwybr Arfordir Cymru. Pan gyrhaeddwch chi groesffordd, trowch i'r chwith i fyny'r allt, gan ddilyn y llwybr nes gweld golygfa o Fae Llandudno. Trowch i'r chwith i fyny'r allt a byddwch yn cyrraedd y pwynt Trig. Rhowch saib ar y sain am y tro ac unwaith rydych chi wedi cyrraedd y copa, mwynhewch y golygfeydd panoramig a phwyso chwarae i ddal ati i wrando.*

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 4. Yr Aligator a'r Eliffant

Gobeithio eich bod chi wedi cael diwrnod clir ar gyfer eich ymweliad. Wrth edrych tua'r gorllewin fe allwch chi weld Bae Llandudno a phentir y Gogarth. Mae'r gair Orme yn Saesneg yn deillio o'r gair o'r Hen Norwyeg, "Ormr", sy'n golygu "Draig" neu "Sarff", sy'n adlewyrchu siâp y Gogarth. Yn ôl y chwedl roedd yn gwarchod y bae rhag ymosodiad o'r môr. Fe gamgymerodd y Llychlynwyr y Gogarth o'u llongau hir am sarff fôr enfawr ac, yn ôl y sôn, roedden nhw'n llawer rhy ofnus i ddod i'r lan. Heddiw, o edrych arno o'r tir, mae'r Gogarth yn cael ei adnabod yn briodol fel 'Yr Aligator' a Thrwyn y Fuwch fel 'Yr Eliffant'.

I'r de orllewin mae cadwyn o fynyddoedd y Carneddau ym Mharc Cenedlaethol Eryri, a Charnedd Llewelyn yw'r uchaf o'r rhain. Mae ei gopa yn 1062 o fetrau uwchben lefel y môr. Dim ond 19m yn llai na'i gefnder enwocach, Yr Wyddfa, ydi hynny. Mae Bae Colwyn i'r de ddwyrain a draw i'r gogledd ddwyrain allan ym Môr Iwerddon fe sylwch chi ar fferm wynt Gwynt y Môr.

Mae'r cynefin cyferbyniol o brysgwydd gwasgaredig, glaswelltir calchfaen, a chreigiau o dan eich traed chi'n gartref i doreth o gennau, mwsoglau, ffyngau a rhywogaethau amrywiol o blanhigion. Maen nhw'n helpu i fwydo a chynnig cysgod i bryfed a glöynnod byw. Un glöyn byw o'r fath yw'r glesyn serennog prin. Mae gan y gwrywod adenydd glas ariannaidd ac mae'r benywod yn frown gydag arlliwiau glas. Maen nhw'n dibynnu ar y glaswelltiroedd yma ac mae posib eu gweld yn hedfan yn isel rhwng mis Mehefin a mis Awst. Mae gan y lindys berthynas arbennig â morgrug, sy'n eu gwarchod nhw rhag ysglyfaethwyr yn gyfnewid am sylwedd melys. Pan maen nhw'n barod i drawsnewid, mae'r lindys yn chwileru mewn siambrau bas, mewn nythod morgrug yn aml, lle mae'r morgrug yn eu gwarchod nhw nes iddyn nhw ddod yn löynnod byw yn eu llawn dwf.

*Dilynwch eich camau yn ôl. Wrth y groesffordd laswellt ewch i'r chwith i gyrraedd cyfeirbwynt Llwybr Arfordir Cymru. Dilynwch y llwybr nes gweld Bae Penrhyn a'r chwarel (cymerwch ofal wrth y dibyn sydyn), trowch i'r dde a mynd yn eich blaen nes cyrraedd yr hen offer weindio. Mae eich stop sain nesaf ar y giât mochyn ar y dde i chi.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

## 5. Gorffennol Diwydiannol: Y Bwrlwm Calchfaen

Dechreuodd stori'r chwarel yn 1889, gan drawsnewid y pentir dwyreiniol. Prynodd Edward Fiddler brydles i chwarelu'r blaendraeth gan Mostyn Estates, gan ei gwerthu ymlaen i Joseph Storey o Swydd Gaerhirfryn. Yn berchennog chwarel profiadol, sefydlodd Joseph Storey The Little Orme's Head Limestone Quarry Company ac yn fuan daeth yn un o'r safleoedd mwyaf, a mwyaf cynhyrchiol, gan gyflogi llawer o chwarelwyr medrus.

Cludwyd calchfaen i'r Alban i gyflenwi'r gweithfeydd cemegol a'r ffwrneisi chwyth dur yno. Fe fu gwahanol gwmnïau'n rhan o'r gwaith dros y blynyddoedd, a phan ailagorodd y chwarel yn ddiweddarach yn ystod y 1920au, defnyddiwyd calchfaen i gynhyrchu Sment Portland gwerthfawr o dan y cwmni newydd, yr Allied Cement Manufactures Ltd, nes i'r galw leihau yn y diwedd ac, yn 1931, fe gaeodd y chwarel am y tro olaf.

Heddiw, mae gweddillion y gorffennol diwydiannol yma'n britho'r dirwedd. Allwch chi weld yr offer weindio o'r hen dordy? Roedd cerrig yn cael eu llwytho oddi yma i wagenni rheilffordd oedd yn cael eu gyrru gan ddisgyrchiant i lawr i'r bae, gan dynnu rhai gwag i fyny, wedi'u cysylltu drwy gebl ar draciau. Mae'r safle bellach yn rhan o Lwybr Arfordir hardd Cymru.

Yn rhyfeddol, hyd yn oed yn anterth ei chynhyrchiant, fe barhaodd y chwarel yn gudd o olwg yr ymwelwyr Fictoraidd oedd yn mwynhau traeth Bae Llandudno. Gwarchod pentir Trwyn y Fuwch, rydyn ni'n gallu mwynhau harddwch y glaswelltiroedd calchfaen a'r bywyd gwyllt rhyfeddol hyd heddiw.

*Ewch drwy'r giât mochyn i lawr y llwybr serth. Byddwch yn ofalus oherwydd gall y trac graean fod yn llithrig. Pan gyrhaeddwch chi'r gwaelod cadwch i'r chwith tuag at y graig galchfaen sydd yn y golwg, a Phorth Dyniewaid. Dyma ble mae eich pwynt sain nesaf chi ar y panel gwybodaeth.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 6 - Porth Dyniewaid

Mae Porth Dyniewaid yn noddfa i'r morloi llwyd mawreddog. Mae'r creaduriaid rhyfeddol yma'n uchafbwynt yn y bae. Mae eu trwynau Rhufeinig nodedig yn rhoi eu henw Lladin iddyn nhw, 'Halichoerus grypus', sy'n golygu mochyn môr trwyn bachyn. Maen nhw'n helwyr deallus a medrus iawn, yn deifio'n ddwfn i ddal pysgod, ystifflogod ac ysglyfaeth arall. Mae'r gwrywod yn gallu tyfu hyd at 2.5 metr o hyd a phwyso cymaint â 300 cilogram, ac mae'r benywod llai yr un mor gyfareddol.

Ar ddiwedd yr haf ac i mewn i'r hydref, mae'r bae'n dod yn feithrinfa brysur. Mae mamau beichiog yn dod i'r lan i roi genedigaeth i forloi bach gwyn blewog. Mae'r creaduriaid newydd-anedig hoffus yma, sy'n cael eu bwydo am ddim ond 3 wythnos ar laeth sy'n cynnwys mwy na 50% o fraster!, yn cael eu gadael yn fuan i ddechrau ar eu siwrnai eu hunain.

Mae'r Deyrnas Unedig yn gartref i tua 40% o boblogaeth y byd o forloi llwyd! Mae eu presenoldeb yn hanfodol, ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y mamaliaid anhygoel yma, cadwch gŵn ar dennyn, peidiwch â mentro i lawr i'r traeth a mwynhewch y morloi o frig y clogwyn. Mae Grŵp Gwirfoddol Morloi Conwy yn rhoi o'u hamser a'u hymdrech i'w monitro nhw. Mae gwybodaeth am forloi'r bae i'w gweld ar yr hysbysfwrdd, gan gynnwys manylion am sut i gymryd rhan neu sut i roi gwybod am darfu, morloi bach wedi'u gadael a morloi sâl.

Mae'r pentir yn hafan i adar hefyd, gan gynnwys Brain Coesgoch, Mulfrain ac Adar Drycin y Graig. Cadwch lygad am Frain Coesgoch yn codi fry i'r awyr o amgylch yr hen chwarel a gwrando am eu cri "Chee-ow" fain, nodedig ac edmygu eu plu du sgleiniog, eu coesau coch llachar a'u pig coch crwm. Yn aelod o deulu'r brain, mae'r adar deallus a chwareus yma i'w gweld yn aml yn hedfan yn acrobatig, yn plymio ac yn deifio ar hyd y clogwyni. Mae ogofâu a hen holltau chwarel yn gynefin magu delfrydol ond mae'r frân goesgoch wedi dod yn rhywogaeth o bryder cadwraethol yn yr 20fed ganrif. Mae cadwraethwyr wedi gweithio'n galed i adfer a chynnal a chadw yn draddodiadol y glaswelltiroedd arfordirol byr sydd arnyn nhw eu hangen ar gyfer bwyd, sy'n gyfoeth o bryfed a lindys.

Mae mulfrain i'w gweld yn aml yn sefyll yn osgeiddig ar greigiau, gyda'u hadenydd wedi'u hymestyn i amsugno cynhesrwydd yr haul ar ôl plymio llwyddiannus. Mae Trwyn y Fuwch yn gartref i un o'r poblogaethau magu mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn bysgotwyr nodedig, yn dal ysglyfaeth gyda'u pig hir, bachog wrth nofio dan ddŵr.

*Gyda'r panel gwybodaeth y tu ôl i chi, ewch yn eich blaen i ymuno â'r llwybr graean troellog nes cyrraedd cyfeirbwynt bach ar Lwybr Arfordir Cymru ar y chwith. Yma, chwaraewch eich clip sain nesaf.*

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 7. Straeon llanwol – Morforwyn Bae Penrhyn

Yn ôl chwedl leol, ymhell cyn i forloi wneud Porth Dyniewaid yn gartref iddyn nhw, roedd yn lloches i fôr-forynion. Roedden nhw'n defnyddio'r bae i gysgodi rhag y stormydd a byddent i'w gweld yn aml yn torheulo ar y creigiau wrth droed y clogwyni serth.

Cafodd môr-forwyn ei dal unwaith mewn storm enbyd a'i golchi i'r lan, wedi'i hanafu, ar draeth Bae Penrhyn. Daethpwyd o hyd iddi gan bysgotwyr, ac erfyniodd arnyn nhw i fynd â hi yn ôl at ei theulu ym Mhorth Dyniewaid lle gallai gael gofal. Gwrthododd y pysgotwyr, gan fwriadu cadw'r Fôr-forwyn a chodi tâl ar bobl am ei gweld. Ond bu farw'r greadures druan o'i hanafiadau neu, efallai, o dorcalon.

Ond, cyn iddi farw, fe felltithiodd y pysgotwyr, gan gyhoeddi na fyddai unrhyw bysgod yn nofio yn y dyfroedd hynny, ac felly fe fydden nhw bob amser yn dlawd ac yn newynog. Fe gyflawnwyd y felltith, a syrthiodd newyn pysgod mawr ar y moroedd oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Yn ôl y chwedl, roedd Sant Ffraid yn cerdded un diwrnod ar hyd y traeth ym Mae Penrhyn ac roedd yn drist o weld y bobl druenus mewn cyflwr o newyn bron oherwydd diffyg pysgod. Taflodd frwyn i'r môr a gweddïo am ddiwedd ar y newyn. Yn wyrthiol, fe drawsnewidiwyd y brwyn yn bysgod, gan luosi'n heigiau mawr. Cafodd y pysgod yr enw 'brwyniaid', sy'n golygu 'tebyg i frwyn'. Roedd melltith y fôr-forwyn wedi dod i ben.

*Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr tarmac. Wrth i chi nesáu at dro sy'n gwyro i'r chwith, ar y dde i chi o flaen yr hen glogwyni chwarel fe welwch chi eich pwynt sain olaf ar arwyddbost cyfeirbwynt Llwybr Arfordir Cymru.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr sain Trwyn y Fuwch

## 8. Rôl annisgwyl tref glan môr

Wrth i'r Ail Ryfel Byd ymledu dros Brydain, roedd gan dref glan môr Llandudno rôl annisgwyl ym maes amddiffynfeydd môr ac ymarfer magnelau arfordirol. Yn 1940, er mwyn dianc rhag y cyrchoedd bomio ar draws Llundain, symudodd y llywodraeth Ysgol Arfordirol y Magnelwyr Brenhinol o Shoeburyness i Benmorfa ar y Gogarth ac, yn ddiweddarach, i'r ochr ddwyreiniol yn Nhrwyn y Fuwch.

Erbyn 1942, roedd y chwarel segur, dawel yma wedi cael ei thrawsnewid yn wersyll hyfforddi milwrol gweithredol, ac roedd hen adeiladau'r chwarel yn cael eu hailddefnyddio fel cartref i'r gweithrediadau, gyda bynceri a llwyfannau gynnau. Fe brofodd yn safle allweddol ar gyfer ymarfer magnelau oherwydd ei fod yn uchel i fyny gyda golygfa arfordirol strategol. Roedd Ysgol Magnelau'r Arfordir yn cynnwys gwahanol gatrodau, gan gynnwys y Gunnery, y Twenty First Coast Battery, oedd yn ymarfer tanio tua'r môr at longau targed wedi'u hangori, a'r Wireless Wing, oedd yn treialu technegau radar arloesol.

Fe wnaeth y dynion gafodd eu lleoli yma o Gyllid y Wlad, personél Byddin Prydain a Byddin yr Unol Daleithiau, integreiddio i gymunedau lleol, gan gael effaith barhaol ar yr ardal a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol. Fe ffurfiodd llawer ohonyn nhw berthnasoedd gyda'r bobl leol, gan arwain at briodasau a theuluoedd yn cydblethu eu bywydau gyda Llandudno.

*O'r llwybr tarmac dilynwch y llwybr graean cul sy'n gwyro i'r dde. Ewch drwy'r giât mochyn fetel a rhwng y tai, ac mae tro sydyn i'r dde wedyn drwy giât mochyn bren. Dilynwch y llwybr coediog yma i fyny'r allt i ymuno â lôn sy'n arwain at Ffordd Colwyn. Trowch i'r dde i ddychwelyd i ddechrau'r llwybr.*

Diolch i chi am ymuno â ni, gobeithio eich bod chi wedi mwynhau archwilio hanes cyfoethog, bywyd gwyllt amrywiol a thirwedd unigryw Trwyn y Fuwch. O'r haenau o graig hynafol o dan eich traed chi i'r cynefinoedd bywiog sy'n ffynnu uwchben, mae'r pentir yma wir yn berl yng Ngogledd Cymru.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government